Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Danielle Cheers**

**Caernarfon**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Mehefin 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac mae ganddynt gydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth, ac maent yn hyderus i gyfleu eu hanghenion.

Mae'r gwarchodwr plant yn garedig ac yn cefnogi'r plant mewn modd cadarnhaol. Mae'n ymwybodol o'i chyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo arferion iach.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr eiddo yn groesawgar ac yn ddiogel ac yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau. Fodd bynnag, nid oes cofnodion ffurfiol ar waith ar gyfer nodi pryd y caiff y teganau a'r adnoddau eu harchwilio a'u glanhau.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda ac yn deall ei chyfrifoldebau rheoliadol. Mae'n gwneud yn siŵr bod ei hyfforddiant a'i gwiriadau addasrwydd yn cael eu cadw'n gyfredol, a bod y rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad eu plant ac am unrhyw newidiadau i'r lleoliad.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent yn symud yn rhydd o amgylch y teganau a'r gweithgareddau, ac yn gallu dewis adnoddau a gaiff eu storio o fewn eu cyrraedd yn annibynnol bob dydd. Maent yn hyderus i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i fynegi eu hunain i'r gwarchodwr plant. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth ofyn am deganau neu adnoddau gwahanol ac yn gwybod y bydd y gwarchodwr plant yn eu darparu. Mae plant yn medru cyfathrebu'n hyderus gyda'r gwarchodwr plant yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan wybod y byddant yn derbyn ymateb yn yr iaith o'u dewis.

Mae gan y plant gydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant. Maent yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, roeddent yn hyderus i siarad â ni, ac i ddangos eu hoff deganau i ni a'n cynnwys yn eu chwarae. Mae'r plant yn hyderus i fynd at y gwarchodwr plant i gael cysur, ac mae hi'n rhoi anogaeth gadarnhaol iddynt ac yn eu cofleidio pan fydd angen. Er enghraifft, pan roedd y plant yn newydd i'r lleoliad ac yn parhau i setlo, roeddent yn dangos i'r gwarchodwr plant eu bod yn dymuno cael eu tegan cysuro a'u bod eisiau mwythau ac roedd yn darparu'r rhain ar unwaith.

Mae'r plant yn dysgu sut i rannu adnoddau ac maent yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn dda. Cânt sgyrsiau hapus â'r gwarchodwr plant am yr hyn y maent yn ei wneud, am eu bod yn awyddus i'w chynnwys yn eu chwarae. Er enghraifft, roedd y plant yn awyddus i chwarae picnic gyda'r gwarchodwr plant a gwnaethant fwynhau gwneud te a rhoi bwydydd gwahanol iddi gan sgwrsio'n hapus wrth chwarae. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt, ac maent yn canolbwyntio'n dda. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau wrth osod darnau gwahanol o'r jig-sos pren yn y mannau cywir gydag ychydig o awgrymiadau gan y gwarchodwr plant a dilyn cyfarwyddiadau'n dda i baru'r ffigurau anifeiliaid mawr a bach gyda'i gilydd.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau ac maent yn gallu treulio digon o amser yn yr awyr agored.  Maent yn defnyddio'r ardd pan fo'r tywydd yn caniatáu ac yn mynd am dro o amgylch y pentref ac i feysydd chwarae lleol yn rheolaidd, lle maent yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n gorfforol ac yn gymdeithasol. Caiff y plant eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, megis tacluso ar ddiwedd gweithgareddau, bwydo eu hunain a thacluso'r teganau cyn mynd i gasglu plant o'r ysgol. Mae hyn yn eu helpu i fagu hyder a hybu eu hannibyniaeth.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddi unrhyw bryderon am blentyn y mae'n gofalu amdano. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig diweddaraf, sy'n golygu ei bod yn barod i ddelio ag unrhyw ddamweiniau neu argyfyngau a all ddigwydd. Caiff unrhyw ddamweiniau eu dogfennu'n dda a'u llofnodi gan y rhieni, i ddangos eu bod wedi cael gwybod am y digwyddiad.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo arferion iach. Mae'n darparu digonedd o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol ac i dreulio amser yn yr awyr agored. Mae'n sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo pan fo'n briodol, megis ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta. Caiff gweithdrefnau hylendid effeithiol eu dilyn pan fo'r gwarchodwr plant yn newid cewynnau er mwyn sicrhau bod y risg o groeshalogi yn cael ei leihau.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Mae'n garedig ac yn gyfeillgar, ac mae'n delio ag unrhyw ymddygiad digroeso mewn modd pwyllog a theg. Mae'n defnyddio dulliau cadarnhaol i ailgyfeirio'r plant os byddant yn dechrau dangos unrhyw ymddygiadau annerbyniol. Er enghraifft, drwy egluro i'r plant yr hyn a ddisgwylir ganddynt pan fyddant yn ei gweld hi'n anodd rhannu neu gymryd eu tro mewn gweithgareddau a thrwy dynnu eu sylw neu eu cyfeirio at rywle arall os byddant yn dechrau dangos unrhyw ymddygiad digroeso. Mae'r polisi rheoli ymddygiad yn amlinellu'r arferion a welwyd yn ystod ein hymweliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau sy'n unol â'u diddordebau ac sy'n eu helpu i ddysgu a meithrin eu sgiliau. Mae'n casglu gwybodaeth am y plant cyn iddynt ddechrau mynychu'r lleoliad, gan ei galluogi i gynllunio i ddiwallu eu hanghenion unigol yn effeithiol. Caiff nodiadau arsylwi ar gynnydd y plant eu cadw yn eu ffeiliau unigol, gan alluogi'r gwarchodwr plant i gynllunio'n effeithiol ar gyfer eu camau dysgu nesaf. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am ddiwrnod eu plentyn drwy negeseuon preifat ac adborth ar lafar ar ddiwedd pob dydd. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cyfathrebu gyda'r plant drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ganu caneuon a darparu dewis o lyfrau a gweithgareddau Cymraeg.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân a diogel i'r plant. Mae'r drysau i'r safle yn cael eu cloi pan fo'r plant yn bresennol ac mae gofyn i ymwelwyr ddangos prawf adnabod a mewngofnodi drwy ddefnyddio'r llyfr ymwelwyr dynodedig. Mae ardal yr ardd yn ddiogel ac wedi'i hamgylchynu gan ffens gadarn. Caiff cofnodion cywir o bresenoldeb y plant eu cofnodi bob dydd. Mae'r gwarchodwr plant yn monitro ac yn ymateb i unrhyw beryglon posibl mewn modd amserol. Er enghraifft, mae'n cwblhau gwiriadau dyddiol o bob ardal, y teganau a'r adnoddau ac mae wedi llunio asesiadau risg ysgrifenedig, sy'n nodi'r risgiau posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, ni chaiff unrhyw gofnodion ffurfiol eu cadw o'r gwiriadau dyddiol ac nid oedd yr asesiadau risg wedi cael eu hadolygu ers peth amser. Caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng ac mae'r ymarferion hyn yn cael eu cofnodi'n dda.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd croesawgar a chyfeillgar. Gall y plant ddefnyddio cegin, ystafell fwyta ac ystafell fyw agored ac mae digon o le iddynt symud yn rhydd ac archwilio'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth addas o deganau ac adnoddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant, gan gynnwys ffigurau anifeiliaid, jig-sos pren, cerbydau, teganau adeiladu, deunyddiau celf a chrefft a chegin chwarae. Cedwir y teganau a'r gemau yn drefnus a chânt eu storio mewn blychau a gaiff eu cylchdroi a'u rhoi ar lefel isel fel y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Er nad oedd yn bosibl defnyddio'r ardal chwarae awyr agored yn ystod yr arolygiad oherwydd y tywydd gwael, mae digon o le yno i'r plant chwarae ac archwilio. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael yn yr ardd, gan gynnwys sleid, cyfarpar dringo, tŷ bach twt, a detholiad o deganau reidio i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol yn ogystal â chegin fwd.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu cyfleoedd i'r plant ddysgu am amrywiaeth drwy ddarparu amrywiaeth o deganau amlddiwylliannol, llyfrau ac adnoddau. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i'r plant archwilio deunyddiau naturiol, deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunyddiau bywyd go iawn yn fwy cyfyngedig. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o gyfarpar i gefnogi sgiliau annibynnol y plant iau. Er enghraifft, mae ganddi seddi toiled i blant bach a stôl step yn yr ystafell ymolchi er mwy i'r plant allu defnyddio'r toiled a golchi eu dwylo yn annibynnol. Mae'r pramiau a'r cadeiriau uchel o ansawdd da ac yn lân. Caiff teganau ac adnoddau eu glanhau'n rheolaidd ond ni chofnodir y tasgau hyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau rheoliadol, ac mae amrywiaeth o bolisïau ganddi sy'n golygu ei bod yn gallu rhedeg ei gwasanaeth mewn modd diogel ac effeithiol. Caiff y polisïau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn iddynt gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Mae datganiad o ddiben manwl ar gael, sy'n rhoi disgrifiad clir a chywir o'r lleoliad. Mae hyn yn golygu y gall rhieni wneud penderfyniad gwybodus o ran p'un a all y lleoliad ddiwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn ai peidio. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu'r plant i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn darparu Cynnig Rhagweithiol yr iaith Gymraeg gan nad ydy'r polisiau a'r gweithdrefnau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r gwarchodwr plant yn ceisio adborth gan y rhieni a'r plant yn rheolaidd. Mae'n nodi rhai o'r gwelliannau a wnaed hyd yma a'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer gweddill y flwyddyn mewn adroddiad manwl ar yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ddilys ac yn gyfredol iddi hi ei hun yn ogystal ag i aelodau o'r aelwyd. Mae'n sicrhau bod Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cael gwybod am ddigwyddiadau o bwys neu newidiadau i'r gwasanaeth fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae ei hyfforddiant cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelu yn gyfredol er mwyn cynnal dealltwriaeth dda o'r arferion cyfredol gorau yn yr agweddau hyn.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni ac yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Roedd y cofnodion a ddarparwyd yn dangos bod y gwarchodwr plant yn casglu'r holl wybodaeth ofynnol am y plant cyn iddynt ddod i'r lleoliad. Mae hyn yn rhoi cyfle iddi gynllunio'n effeithiol ac i weithio â theuluoedd i ddiwallu anghenion unigol y plant. Mae'r rhieni'n cofrestru i ddangos eu bod wedi cael holl bolisïau'r gwasanaeth cyn i'w plentyn fynychu, ac yn eu deall. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y caiff y plant gyfleoedd i ddysgu am y gymuned y maent yn byw ynddi drwy dreulio llawer o amser yn ymweld â'r ardaloedd lleol, megis y parciau a lleoedd o ddiddordeb. Mae'r holiaduron adborth i rieni yn dangos eu bod yn fodlon iawn ar y lleoliad a'r gofal a ddarperir i'r plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff yr asesiadau risg ysgrifenedig eu hadolygu'n flynyddol a bod y gwiriadau diogelwch dyddiol a'r tasgau glanhau yn cael eu cofnodi. |
| Darparu mwy o gyfleoedd i archwilio deunyddiau naturiol a bywyd go iawn er mwyn ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/02/2024